At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 17 Mai 2013

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 23 MAI 2013** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – CAIFF Y WASG A'R CYHOEDD EU GWAHODD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2013/14

**3 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

**4 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd am eitemau y mae'r Cadeirydd yn credu y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2013 (mae copi ynghlwm).

**6 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL** (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Adfywio Strategol (mae copi ynghlwm) sy'n amlinellu perfformiad y Cyngor hyd yma o ran gweithredu ei gynlluniau tref gan ofyn i aelodau nodi unrhyw lithriadau a chamau i wella'r gwaith gweithredu er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i ddod yn nes at ei gymunedau.

**9.40am**

**7 AILSTRWYTHURO'R GWASANAETHAU ADFYWIO, CYMORTH I FUSNESAU A THWRISTIAETH** (Tudalennau 23 - 38)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedau (mae copi ynghlwm) sy'n amlinellu'r rhesymeg a'r broses ar gyfer ailstrwythuro'r Gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn gofyn am farn yr aelodau am eu disgwyliadau a'u dyheadau ar gyfer y Gwasanaeth a'i waith wrth gefnogi'r broses o wireddu blaenoriaethau'r Cyngor o ran yr economi a thai.

**10.10am**

**8 ADOLYGU'R STRATEGAETH TAI LLEOL – SIR DDINBYCH** (Tudalennau 39 - 56)

Ystyried adroddiad (mae copi ynghlwm) gan yr Uwch Swyddog – Strategaeth a Phartneriaethau sy'n amlinellu'r cynnydd hyd yma o ran adolygu'r Strategaeth Tai Leol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr ac mae'n gofyn am gyfraniad aelodau i'r Strategaeth.

**10.40am**

**EGWYL**

**9 ADOLYGIAD O WASANAETHAU DYDD YN YNG NGOGLEDD SIR DDINBYCH** (Tudalennau 57 - 72)

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth: Ardal y De (mae copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried y cynigion diwygiedig i ailfodelu gofal dydd i bobl hŷn yng ngogledd y Sir, cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno i'r Cabinet.

**11.10am**

**10 GRŴP TASG A GORFFEN ADOLYGU BWYD** (Tudalennau 73 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (mae copi ynghlwm) sy'n cyflwyno canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i adolygu polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor o ran caffael, rheoleiddio a rheoli bwyd yn gywir yn sgil y sgandal cig ceffyl. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymhellion y Grŵp cyn eu cyflwyno i'r Cabinet.

**11.40am**

**11 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 91-112)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (mae copi ynghlwm) sy'n gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am faterion perthnasol.

**12.15pm**

**12 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Cael unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor am amryw Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

**12.30pm**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James
Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned